**Cofnodion Cyfarfod Tasglu y Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr – 22 Mawrth, MS Teams**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Alison Heal | ALl Ceredigion |
| Andrea Rowe | Butterfly Conservation |
| Angus Garbutt | Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU |
| Anthony Rogers | ALl Sir Benfro/Partneriaeth Natur Leol |
| Bleddyn Lake | Cyfeillion y Ddaear |
| Bob Griffiths | Cefnffyrdd |
| Clare Dinham | Buglife |
| Francis Gellatly | Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion |
| Gary Mitchell | Tyfu Fyny/Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol |
| Gemma Barron | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| Geoff Robinson | Llywodraeth Cymru |
| Huw Bramhall | Llywodraeth Cymru/WSP |
| James Drake | Network Rail |
| Jamie Alison | Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU |
| Jean Hurell | Sefydliad y Merched |
| Joel Walley | ALl Sir Ddinbych |
| Kathleen Carroll | Llywodraeth Cymru |
| Keith Davies | Cymdeithas Gwenynwyr Cymru |
| Lynda Christie | Cymdeithas Gwenynwyr Cymru |
| Mark Cleaver | ALl Sir Fynwy |
| Michaela Scrivin | CNC / Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru |
| Natasha De Vere | Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru |
| Phil Sterling | Butterfly Conservation |
| Richard Comont | Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn |
| Richard Dawson | Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU |
| Rose Revera | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Samantha Harris | Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| Sarah Thomas | Sefydliad y Merched |
| Sinead Lynch | Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn |
| Trevor Theobald | ALl Sir Benfro |

1. **Croeso a chyflwyniadau**

   Agorodd Kathleen Carroll y cyfarfod trwy groesawu'r aelodau. Gwnaed cyflwyniadau. Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.

2. **Geoff Robinson (Llywodraeth Cymru) – Cynllun Gweithredu Adfer Natur, adroddiadau a chynlluniau Adran 6**

   Rhannodd Geoff drosolwg o ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau Adran 6 o Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016, sef y ddyletswydd sy’n gofyn bod bioamrywiaeth yn cael ei chynnal a’i gwella. Mae gan Gyrff Cyhoeddus gyfrifoldeb i ymgorffori bioamrywiaeth yn eu camau gweithredu ac mae gofyn eu bod yn cyflwyno adroddiadau.

   Mae sawl Corff Cyhoeddus, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, wedi cyflawni camau gweithredu ar gyfer peillwyr. Fodd bynnag, mae’n anodd tynnu’r wybodaeth hon ynghyd gan nad oes templed safonol ar gyfer yr adroddiadau ac mae arddulliau’r adroddiadau yn amrywio.

   Darparwyd adroddiadau gan 25% o’r Cyrff Cyhoeddus. Cysylltodd Llywodraeth Cymru â’r holl Gyrff Cyhoeddus yn ddiweddar i dynnu eu sylw at y gwerthusiad o ddyletswydd adran 6 sydd newydd ddechrau.

   Pwysleisiodd Anthony Rogers fod casglu’r wybodaeth hon yn hanfodol bwysig. Argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru, pan fyddai’n anfon llythyrau at y Prif Swyddogion Gweithredol, fod yn anfon copi hefyd at y swyddogion bioamrywiaeth cyfrifol. Trwy wneud hynny, byddai’r bobl sy’n gweithio ar lawr gwlad yn ymwybodol o’r gofynion a byddai modd iddynt gysylltu â’u rheolwyr i danlinellu pwysigrwydd cyflwyno adroddiadau.

3. **Ymatebion i ymgynghoriad**

   **Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Diwygiedig ar gyfer y Defnydd Cynaliadwy o Blaleiddiaid (Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion)**

   Darparwyd yr ymateb i’r ymgynghoriad hwn gyda’r agenda. James Byrne (Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt) oedd yn gyfrifol am gydlynu’r gwaith o ddrafftio’r ymateb i’r ymgynghoriad, a diolchwyd iddo am ei ymdrechion. Diolchwyd hefyd i aelodau is-grŵp y Tasglu ar blaladdwyr a fu’n gweithio gyda James i ystyried y ddogfen ymgynghori a’i chwestiynau a rhoi adborth dilynol ar y drafftiau.

Rhoddodd Gemma Barron (yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol) ddiweddariad ynghylch y gwaith a wnaed gan yr is-grŵp amaethyddiaeth i ddrafftio ymateb i Fil Amaethyddiaeth (Cymru). Roedd copi drafft ar gyfer sylwadau wedi'i ddosbarthu cyn cyfarfod y Tasglu. Dywedodd Gemma fod amser o hyd i bobl roi sylwadau os oeddent yn dymuno cyn y dyddiad cau ddydd Gwener 26 Mawrth. Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad yn cefnogi, i gryn raddau, y cynigion lefel uchel sydd yn y papur gwyn. Mae'r Tasglu yn awyddus i weld mwy o fanylion am y cynllun yn cael eu cyhoeddi. Roedd Gary Mitchell (Tyfu Fyny /Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol) ar ddeall y byddai'r ymgynghoriad nesaf ynghylch manylion y cynllun yn cael ei lansio yn yr hydref.

Dywedodd Kathleen Carroll (LlC) y byddai'r ymatebion i'r papur gwyn yn cael eu hadolygu yn annibynnol a'u cyhoeddi ym mis Gorffennaf.

Diolchwyd i Gemma ac i'r is-grŵp amaethyddiaeth am ddrafftio'r ymateb.

4. **Philip Sterling (Butterfly Conservation) – Newid ein dull gweithredu o ran dylunio a chynnal a chadw lleiniau ymyl ffordd er mwyn annog bywyd gwyllt**

Mae'r Dr Phil Sterling yn gweithio i elusen Butterfly Conservation yn y DU fel arweinydd y prosiect Building Sites for Butterflies. Am 25 mlynedd, bu'n brif ymgynghorydd ecolegol i lywodraeth leol sir Dorset yn y DU. Rhannodd ei brofiad o gynlluniau creu cynefinoedd ar raddfa fawr a rheoli rhaglen cynnal a chadw lleiniau ymyl ffordd yr awdurdod. Darganfu fod gweithio gyda natur a lleihau ffrwythlondeb y pridd (trwy dorri a chasglu mewn ardaloedd trefol neu ddefnyddio haen denau o uwchbridd, sy'n llai na 15mm o ddyfnder, mewn datblygiadau) yn fodd i gyflawni buddion amgylcheddol sylweddol yn ogystal ag arbed costau.

Dolen i'r cyflwyniad: https://butterflyconservation-my.sharepoint.com/:p:/g/personal/psterling_butterfly-conservation_org/EU_9FQf41jtFlgdYFCYocH4BinZXxclPRUBe9rjoy6SlgQ?e=WSVHPG

5. **Jamie Alison (UK CEH) – Monitro peillwyr ar draws ecosystemau yng Nghymru**

Nod cyffredinol y prosiect oedd deall tueddiadau gwahanol mewn ardaloedd penodol yng nghefn gwlad yn gyffredinol. Roedd cyflwyniad Jamie yn cynnig gwybodaeth fanwl fod coetir, tir cnydau, gwrychoedd a gorchudd blodau yn sylfaen ar gyfer llaweroedd o beillwyr mewn tirweddau glaswelltir a wellwyd. Gofynnodd a ydym wedi diystyru gwerth ardaloedd coetir ar gyfer peillwyr. Mae deall eu gwerth yn bwysig, yn enwedig gan fod Cymru'n datblygu Coedwig Genedlaethol. Mae rhywfaint o'r data a gyflwynwyd gan Jamie wedi cael ei gyhoeddi yn y Dadansoddiad o'r Data Monitro Cenedlaethol yng Nghymru ar gyfer Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020.

Atodir cyflwyniad Jamie.

6. **Richard Comont (Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn) – Gwaith gwyddoniaeth dinasyddion yr Ymddiriedolaeth, yn enwedig BeeWalk**

   Rhannodd Richard fanylion ynghylch pam a sut y cynhelir astudiaeth BeeWalk. Esboniodd fod hyfforddiant a chymorth ar gael i roi'r sgiliau i bobl gynnal yr arolwg. Mae nifer o fylchau ledled Cymru, yn enwedig ar yr ucheldir ac yng nghanolbarth y wlad, lle nad yw BeeWalks yn digwydd. I ddatblygu hyder pobl i gynnal arolwg, bydd prosiect newydd o'r enw Skills for Bees, sy'n darparu hyfforddiant ynghylch adnabod cacwn a chynnal arolygon, ar waith rhwng Chwefror 2021 ac Ionawr 2024.

   Atodir cyflwyniad Richard.

7. **Angus Garbutt (UK CEH) – Y newyddion diweddaraf am y Cynllun Monitro Peillwyr**

   Darparodd Angus y newyddion diweddaraf ynghylch Cynllun Monitro Peillwyr y DU (PoMS). Bydd ap newydd yn cael ei lansio ym mis Ebrill ar gyfer cyfrifon Blodau-Pryfed wedi'u Hamseru (Cyfrifon FIT). Mae UKCEH hefyd yn datblygu offer delweddu a darparu adborth. Rhannodd Angus fanylion hefyd am yr arolwg 1km a dywedodd fod angen gwirfoddolwyr ar nifer o sgwariau yng Nghymru. Mae methodoleg PoMS yn cael ei mabwysiadu yn rhyngwladol, gyda gwledydd yn yr Undeb Ewropeaidd ac yn Ne America yn defnyddio'r cynllun.

   Atodir cyflwyniad Angus.

8. **Trafodaeth ynghylch Gwyddoniaeth Dinasyddion**

   Trafodwyd sut y mae cael rhagor o bobl yng Nghymru i ymddiddori mewn Gwyddoniaeth Dinasyddion.

   Roedd yr aelodau o'r Tasglu yn deall bod pwysau o sawl cyfeiriad ar amser pobl ac y gallent fod am ymwneud mwy â'u hamgylchedd ond efallai nad oedd fawr o amser ganddynt i wneud hynny.

   Cydnabuwyd fod nifer o gyfleoedd y gellid eu harchwilio sydd ag ymrwymiadau amser gwahanol ynghlwm wrthynt. Awgrymwyd petai arolygon yn cael eu dosbarthu gyda chrynodebau clir, gallai hynny helpu pobl i benderfynu a oes prosiect a fyddai'n addas iddynt. Awgrymwyd hwyrach y gallai'r Bartneriaeth Natur Leol helpu i sefydlu fframwaith.

   Cydnabuwyd hefyd ei bod hi'n bwysig bod gwirfoddolwyr yn teimlo bod gwobr gadarnhaol am neilltuo amser. Gallai hynny fod naill ai ar ffurf hyfforddiant cychwynnol neu gael adborth, yn ddiweddarach, ar yr wybodaeth a ddarparwyd ganddynt a'i le yn y darlun ehangach.

Roedd cefnogaeth i'r syniad o sefydlu Is-grŵp Gwyddoniaeth Dinasyddion ac Addysg. Argymhellwyd bod cynrychiolydd o'r Ganolfan Cofnodion Lleol yn cael gwahoddiad i'r cyfarfodydd hyn.

Gofynnwyd sut y gellid cael mynediad at adnoddau ac arbenigedd. Darparwyd y dolenni canlynol yn y bar sgwrsio:

- gweminarau sydd ar YouTube – https://www.youtube.com/playlist?list=PLPhsa9yg1KN97bLqq8-8Tcal51iTBfp--
- tudalen we BeeWalk – https://www.beewalk.org.uk/
- tudalen we PoMS – https://www.ceh.ac.uk/our-science/projects/pollinator-monitoring
- Pôl y Peillwyr: Cymryd rhan yng Nghynllun Monitro Peillwyr y DU (Natural History Live – ddydd Iau, 22 Ebrill 2021 15:00-16:00) https://www.field-studies-council.org/shop/courses/poms-nhl/

**9. Diweddariadau Tasglu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr ac unrhyw fater arall**

- **Natasha De Vere – Trawsnewid Systemau Bwyd**

Mae gan Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a Phrifysgol Aberystwyth ddiddordeb mewn edrych ar fêl, gwenyn mêl a pheillio yng Nghymru.

Gan ddefnyddio dull amlddisgyblaeth, byddent yn hoffi datblygu prosiect sy'n cwmpasu'r meysydd canlynol, gan ddefnyddio Cymru fel astudiaeth achos ar gyfer dulliau gweithredu y gellid eu mabwysiadu ledled y byd.

  - Pobl Iach: manteision bwyta mêl o safbwynt iechyd a llesiant a sut i optimeiddio cynhyrchu mêl.
  - Gwenyn Iach: sicrhau bod modd i wenyn mêl ffynnu (gan gysylltu â Chynllun Gwenyn Iach 2030).
  - Amgylchedd Iach: optimeiddio'r gwasanaethau peillio a ddarperir gan wenyn mêl a pheillwyr gwyllt ar gyfer cnydau presennol a chnydau yn y dyfodol.

- **Samantha Harris (LlC – Adran yr Economi a Thrafnidiaeth)**

Rhoddodd Samantha wybod bod y Strategaeth Drafnidiaeth newydd wedi cael ei chyhoeddi bellach: https://gov.wales/llwybr-newydd-wales-transport-strategy-2021.

- **Kathleen Carroll (LlC – Cangen y Tir, Natur a Choedwigaeth) – Rhyddhau colomennod a gloÿnnod byw mewn angladdau a digwyddiadau dathlu**

Trafodwyd papur Apse ar y mater hwn a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod. Mae Butterfly Conservation wedi bod yn ymwybodol o'r mater hwn ers sawl blwyddyn ac mae'n gwrthwynebu'r arfer hwn. Teimlid bod anifeiliaid yn cael eu defnyddio ar gyfer adloniant pobl yn unig. Roedd pryderon am faterion monitro a lles anifeiliaid. Y consensws cyffredinol oedd y dylid annog pobl i gefnu ar yr arfer hwn.

Byddai Kathleen Carroll, ar ran y Tasglu, yn drafftio testun i'w gymeradwyo gan y Tasglu, yn gofyn i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wneud cais i'w haelodau atal gloÿnnod byw rhag cael eu defnyddio yn y modd hwn.

**10. Y cyfarfod nesaf**

Mae'r cyfarfod nesaf i fod i gael ei gynnal ar ffurf rithwir ym mis Hydref/Tachwedd. Bydd Kathleen Carroll yn dosbarthu dewis o ddyddiadau gan ddefnyddio Doodle poll.

Gofynnodd Gary Mitchell am ddiweddariad yn y cyfarfod nesaf ynghylch Rhandiroedd, sy'n safleoedd allweddol i beillwyr mewn ardaloedd trefol. O 1 Ebrill, bydd Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yn gweithio gydag awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i ddarparu rhagor o safleoedd rhandir ledled Cymru.

Cytunwyd yn gyffredinol y dylid gofyn i'r Dr Phil Sterling ddychwelyd i gyfarfod nesaf y Tasglu i roi cyflwyniad pellach gan roi sylw arbennig i sicrhau arbedion sylweddol ar gostau trwy ddefnyddio egwyddorion ecolegol.